



Mae'r daflen wybodaeth hon yn rhoi gwybod i chi am beth i'w wneud os ydych o'r farn ein bod wedi gwneud penderfyniad anghywir ynglŷn â'ch Credyd Treth Plant, eich Credyd Treth Gwaith neu gosb.

## Ailystyriaeth orfodol

Os ydych yn parhau i fod yn anafodlon gyda'r penderfyniad ynglŷn â chredydau treth, ar ôl rhoi galwad i'r llinell gymorth i gael esboniad, gallwch ofyn i ni fwrw golwg arall arno. Rydym yn galw hyn yn 'ailystyriaeth orfodol'.

📄 Mae'n hawdd ac yn gyflym i wneud hyn ar-lein, ewch i [www.gov.uk/government/publications/child-tax-credit-and-working-tax-credit-appeal-form.cy](http://www.gov.uk/government/publications/child-tax-credit-and-working-tax-credit-appeal-form.cy)

Cewch gadarnhad ar unwaith bod eich cais am ailystyriaeth wedi dod i law, a gallwch ddilyn ei drywydd wrth iddo gael ei brosesu. Ni fydd yn rhaid i chi dalu costau postio a gallwch atodi ffotograffau neu ffeiliau'n electronig i ategu'ch cais am ailystyriaeth. Fel arfer rhoddir sylw i'ch cais am ailystyriaeth yn gyflymach os cyflwynwch hwn ar-lein.

✉ Os na allwch wneud hyn ar-lein, llenwch y ffurflen ailystyriaeth orfodol ac anfonwch hi atom.

Pan fyddwn wedi ystyried y penderfyniad o'r newydd, byddwn yn anfon Hysbysiad o Ailystyriaeth Orfodol atoch sy'n egluro'r hyn rydym wedi ei benderfynu. Bydd hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i apelio i driwlynys annibynnol os ydych yn anafodlon gyda'n penderfyniad. Byddwn yn gohirio unrhyw gamau i adennill gordaliad tra rydym yn ailystyried, neu wrth i'ch apêl gael ei hystyried.

## Pryd y gallwch ofyn i ni am ailystyriaeth

Bydd yr hysbysiad o benderfyniad y byddwn yn anfon atoch yn rhoi gwybod i chi a allwch ofyn i ni ystyried eich penderfyniad o'r newydd. Gallwch wneud hyn pan fo'r canlynol yn gymwys:

- rydych o'r farn bod penderfyniad yn anghywir
- nid yw'ch dyfarniad yn cymryd newid yn eich amgylchiadau i ystyriaeth ar ôl i chi roi gwybod am y newid
- mae'ch dyfarniad wedi'i ostwng neu wedi dod i ben
- rydych yn anghytuno â hysbysiad o gosb
- codwyd llog arnoch

## Pwy all ofyn i ni am ailystyriaeth

Fel arfer gall yr hawliwr, neu'r person sy'n cael y credydau treth, ofyn am ailystyriaeth. Os ydych yn hawlio fel cwpl, dim ond un ohonoch sydd angen gwneud hynny.

Gallwch ofyn i ymgynghorydd annibynnol eich helpu. Os ydych yn benodai ac yn hawlio credydau treth ar ran rhywun arall gallwch ofyn am ailystyriaeth ar ran y person hwnnw.

## Sut i ofyn i ni am ailystyriaeth

Mae'n rhaid i'ch cais fod naill ai ar-lein neu ar bapur. Gallwch wneud y naill neu'r llall o'r canlynol:

📄 mynd i [www.gov.uk/government/publications/child-tax-credit-and-working-tax-credit-appeal-form.cy](http://www.gov.uk/government/publications/child-tax-credit-and-working-tax-credit-appeal-form.cy) i lenwi'r ffurflen ar-lein

- llenwi'r ffurflen 'Ffurflen ailystyriaeth orfodol' sydd wedi'i hatodi a'i hanfon atom
- anfon llythyr atom, rhaid i chi roi gwybod i ni
  - beth yw'ch enw llawn, dyddiad geni, rhif Yswiriant Gwladol, ac ysgrifennu 'Ailystyriaeth/Reconsideration' ar frig eich llythyr
  - pa benderfyniad rydych am i ni ei ystyried o'r newydd a pham eich bod o'r farn ei fod yn anghywir
  - beth yw dyddiad y penderfyniad rydych am i ni ei ystyried o'r newydd

📄 Cofiwch, rhaid i chi gynnwys copïau gwreiddiol o dystiolaeth sy'n ategu'ch cais am ailystyriaeth. Gall methiant i wneud hynny olygu na fydd newid i'n penderfyniad.


✉ Anfonwch eich 'Ffurflen ailystyriaeth orfodol' neu lythyr at  
Cyllid a Thollau EM - Canolfan Cyswllt Cymraeg,  
Tŷ Moelwyn,  
Tros y Bont,  
Porthmadog,  
Gwynedd LL49 9AB

## Dyddiad cau ar gyfer gofyn i ni am ailystyriaeth

Fel arfer bydd gennych 30 diwrnod o ddyddiad ein penderfyniad i ofyn i ni ei ystyried o'r newydd. Os oes gennych reswm da, mae'n bosibl y gallwn roi rhagor o amser i chi ond bydd yn rhaid i chi roi gwybod i ni pam fod eich cais am ailystyriaeth yn hwyr. Ni allwn dderbyn cais am ailystyriaeth sy'n ddyddiedig 13 mis neu fwy ar ôl dyddiad ein penderfyniad.


## Pryd na allwch ofyn i ni am ailystyriaeth

Ni allwch gyflwyno cais am ailystyriaeth i wneud newid newydd i'ch amgylchiadau. I roi gwybod i ni am eich newidiadau,

 ewch i [www.gov.uk/managedtaxcredits](http://www.gov.uk/managedtaxcredits)

Ni allwch, chwaith, ofyn i ni ailystyried penderfyniad sy'n gofyn i chi ad-dalu gordaliad.

Os ydych am wrthwynebu gordaliad gallwch lenwi'r ffurflen ar-lein TC846, 'Gordaliad Credydau Treth'.

 Ewch i [GOV.UK](http://GOV.UK) i chwilio am TC846 neu ysgrifennwch atom yn Swyddfa Credydau Treth, Cyllid a Thollau EM, Tŷ Moelwyn, Tros y Bont, Porthmadog, LL49 9AB

Os gwnaethom gamgymeriad, roi cyngor anghywir i chi neu ni wnaethom brosesu (cyn pen 30 diwrnod) newid y rhesoch wybod i ni amdano, gallwch wrthwynebu ein penderfyniad i adennill eich gordaliad. Mae'n rhaid i chi wneud hyn cyn pen 3 mis o ddyddiad:

- eich hysbysiad o benderfyniad terfynol
- y penderfyniad ar eich Adolygiad Blynyddol (os adnewyddir eich dyfarniad yn awtomatig)
- y penderfyniad ar eich Adolygiad o Ddyfarniad (os yw'ch dyfarniad yn dod i ben yn awtomatig o ganlyniad i gais am Gredyd Cynhwysol)
- eich Datganiad o Gyfrif
- yr hysbysiad sy'n rhoi ein penderfyniad i chi ynghylch eich ailystyriaeth orfodol
- y llythyr oddi wrth y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd neu Apeliadau sy'n rhoi eu penderfyniad i chi ynghylch eich apêl

Gallwch dim ond gwrthwynebu gorfod ad-dalu gordaliad a gododd yn y flwyddyn dreth y mae'r hysbysiad neu'r llythyr yn ymwneud â hi. Ni fyddwch fel arfer yn gallu gwrthwynebu gordaliadau o flynyddoedd treth cynharach.

Byddwn dim ond yn derbyn gwrthwynebiad hwyr mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft, os oeddech yn yr ysbyty am y cyfnod hwnnw o 3 mis ac nid oedd unrhyw un arall yn gallu delio â'ch materion. Os anfonwch wrthwynebiad atom, byddwn yn parhau i geisio adennill y gordaliad tra byddwn yn ystyried eich gwrthwynebiad.

Os ydych yn ei chael yn anodd i ad-dalu gordaliad, gallwch ofyn i ni ystyried y taliadau rydym wedi gofyn i chi eu gwneud o'r newydd. Mae ein taflen COP26 "Beth sy'n digwydd os ydym wedi talu gormod o gredydau treth i chi" yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi ynghylch sut i wrthwynebu adennill gordaliad, gan gynnwys y terfynau amser.

 Am fwy o wybodaeth, ewch i [GOV.UK](http://GOV.UK) i chwilio am COP26, neu ffoniwch ein llinell gymorth.

## Yr hyn sy'n digwydd nesaf

Byddwn yn ystyried y penderfyniad o'r newydd ac yn anfon Hysbysiad o Ailystyriaeth Orfodol atoch. Bydd hwn yn esbonio:

- y gyfraith a'r ffeithiau rydym wedi'u defnyddio i wneud ein penderfyniad
- unrhyw newidiadau rydym wedi'u gwneud
- sut i apelio i dribiwnlys annibynnol, os byddwch yn dal i anghytuno â'n penderfyniad

Os byddwch yn apelio'n uniongyrchol i dribiwnlys annibynnol, bydd yn rhaid i chi wneud hyn cyn pen un mis o'r dyddiad a nodir ar eich Hysbysiad o Ailystyriaeth Orfodol. Bydd y tribiwnlys dan ofal y Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (yng Nghymru, Lloegr a'r Alban) neu'r Gwasanaeth Apeliadau (yng Ngogledd Iwerddon).

Am ragor o wybodaeth, ewch i:

 [www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service](http://www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service) (Cymru, Lloegr a'r Alban)

 [www.nidirect.gov.uk/the-appeals-service-northern-ireland-tas](http://www.nidirect.gov.uk/the-appeals-service-northern-ireland-tas) (Gogledd Iwerddon)

## Os ydym wedi gwneud camgymeriad

Mewn rhai achosion, gallwn newid dyfarniad anghywir hyd at 5 mlynedd yn ddiweddarach, ond dim ond pan fo pob un o'r canlynol yn berthnasol:

- gwnaethom gamgymeriad
- ni wnaethoch unrhyw beth i gyfrannu at y camgymeriad hwnnw
- byddai'r penderfyniad newydd o'ch plaid

Rydym yn galw hyn yn adolygu ar gyfer 'camgymeriad swyddogol'.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch y Ganolfan Cyswllt Cymraeg ar **0300 200 1900**

08:30 - 17:00, Dydd Llun - Dydd Gwener

Ar gyfer pobl â nam ar eu clyw neu leferydd, cysylltwch â ni ar **0345 300 3909**

## Sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth sydd gennym amdanoch

Am fanylion ewch i:

 [www.gov.uk/government/publications/data-protection-act-dpa-information-hm-revenue-and-customs-hold-about-you](http://www.gov.uk/government/publications/data-protection-act-dpa-information-hm-revenue-and-customs-hold-about-you)



**Peidiwch** â defnyddio'r ffurflen hon os ydych am wrthwynebu ein penderfyniad i ofyn i chi ad-dalu gordaliad.  
**Cofiwch**, rhaid i chi gynnwys copïau gwreiddiol o dystiolaeth sy'n ategu'ch cais am ailystyriaeth. Gall methiant i wneud hynny olygu na fydd newid i'n penderfyniad.

## Ynglŷn â chi

### 1 Enw llawn

Teitl - rhowch Mr, Mrs, Miss, Ms neu deitl arall

Enw cyntaf

Enw olaf

### 2 Cyfeiriad


Cod post

### 3 Rhif ffôn yn ystod y dydd gan gynnwys y cod deialu

Rhowch amser yn ystod y dydd rhwng 8.30am a 5pm, dydd Llun i ddydd Gwener, y byddwch ar gael i ni eich ffonio.

Diwrnod

Amser

### 4 Dyddiad geni DD MM BBBB

### 5 Rhif Yswiriant Gwladol

## Ynglŷn â'ch cais am ailystyriaeth

### 6 A oes gennych gynrychiolydd sy'n eich helpu gyda'ch cais hwn, fel perthynas neu Gyngor ar Bopeth?

Nac oes  Os Nac oes, ewch i gwestiwn 7

Oes  Os Oes, atebwch y cwestiynau canlynol

Ei enw/henw llawn

Enw cyntaf

Enw olaf

## Ynglŷn â'ch cais am ailystyriaeth <sup>parhad</sup>

Ei gyfeiriad / Ei chyfeiriad


Llofnodwch yn y fan hon i awdurdodi'r person hwn i weithredu ar eich rhan

A ydych chi am i ni anfon yr holl ohebiaeth at eich cynrychiolydd?

Nac ydw  Ydw

Mae'r awdurdod hwn i weithredu ar eich rhan ond yn ddilys ar gyfer y cais hwn.

### 7 Beth yw dyddiad y penderfyniad rydych am i ni ei ystyried?

Dyma'r dyddiad sydd ar yr hysbysiad o benderfyniad y gwnaethom ei anfon atoch.

DD MM BBBB

### 8 Pa flwyddyn dreth y mae'r penderfyniad hwn yn ymwneud â hi?

DD MM BBBB i DD MM BBBB



### 9 A ydych yn anfon y ffurflen hon yn hwyrach na 30 diwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad o benderfyniad?

Nac ydw  Os Nac ydw, llenwch flwch 2 drosodd

Ydw  Os Ydw, llenwch flychau 1 a 2 drosodd

### 10 A ydych chi neu'ch partner, os oes gennych un, hefyd wedi gofyn i ni ailystyried penderfyniad Budd-dal Plant neu Lwfans Gwarcheidwad?

Wrth ddweud partner, rydym yn golygu person rydych yn:

- briod ag ef/hi
- mewn partneriaeth sifil ag ef/hi
- yn byw gydag ef/hi fel petaech yn briod neu mewn partneriaeth sifil

Nac ydw

Ydw  Os Ydw, beth oedd y dyddiad y gwnaethoch chi neu'ch partner ofyn am ailystyriaeth Budd-dal Plant neu Lwfans Gwarcheidwad?

# Gofyn am ailystyriaeth orfodol

Defnyddiwch y lle gwag isod i roi gwybod i ni **pam eich bod yn anghytuno â'r penderfyniad**.

Cofiwch:

- dylech roi gwybod i ni pam rydych o'r farn fod y penderfyniad yn anghywir - os credwch fod yr wybodaeth sydd gennym yn anghywir, rhowch wybod beth y credwch yw'r wybodaeth gywir
- os ydych yn gofyn i ni ystyried mwy nag un penderfyniad o'r newydd, rhowch wybod beth yw dyddiad pob un, ynghyd â'ch rhesymau dros anghytuno â phob un
- os ydych yn gofyn am ailystyriaeth sydd dros **30 diwrnod** o ddyddiad ein penderfyniad, esboniwch pam fod gohiriad gyda'ch cais
- os oes angen mwy o le arnoch, defnyddiwch daflen arall o bapur - rhowch eich enw, rhif Yswiriant Gwladol, ac ysgrifennwch '**Ailystyriaeth**' ar frig unrhyw daflenni papur ychwanegol
- rhaid i chi gynnwys copïau gwreiddiol o dystiolaeth sy'n ategu'ch cais am ailystyriaeth - gall methiant i wneud hynny olygu na fydd newid i'n penderfyniad
- os gwnaethoch anfon dystiolaeth ar gyfer y penderfyniad gwreiddiol, nid oes angen i chi ei hanfon eto

## 1 Pam fod fy nghais yn ddyddiedig dros 30 diwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad o benderfyniad yr wyf yn anghytuno yn ei gylch

## 2 Pam nad wyf yn cytuno â'r penderfyniad

### Datganiad

**Rwyf yn datgan** fod yr wybodaeth rwyf wedi'i rhoi ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn.

Ticiwch y blychau sy'n gymwys i chi.


Mae fy nhystiolaeth wedi'i hatodi.

Mae'r rheswm pam bod fy nghais yn hwyr wedi'i atodi.

#### Signature

Os oes rhywun wedi'i benodi yn swyddogol i weithredu ar eich rhan (penodai), dylai lofnodi are eich rhan yn y blwch isod.

Os ydych am i rywun weithredu ar eich rhan (cynrychiolydd neu gyfryngwr) ar gyfer eich holl faterion credydau treth, Lwfans Gwarcheidwad a/neu Fudd-dal Plant, bydd angen i chi wneud un o'r canlynol:

•  llenwi ffurflen TC689, 'Awdurdod i gyfryngwr i weithredu ar eich rhan' - ewch i GOV.UK i chwilio am TC689, llenwch y ffurflen ar-lein a'i hanfon atom.

- ysgrifennu atom i ofyn am ffurflen TC689 gan ddefnyddio'r cyfeiriad ar dudalen 1

Dyddiad DD MM BBBB

### Yr hyn i'w wneud nawr

Sicrhewch eich bod wedi llenwi'r ffurflen hon yn ei chyfanrwydd a'i lofnodi.

Rhwygwch a datod y 'Ffurflen ailystyriaeth orfodol' wedi'i llenwi a'i hanfon at:

Cyllid a Thollau EM - Canolfan Cyswllt Cymraeg,

Tŷ Moelwyn,

Tros y Bont,

Porthmadog,

Gwynedd LL49 9AB

Cofiwch, rhaid i'ch cais am ailystyriaeth gyrraedd cyn pen **30 diwrnod** o ddyddiad ein hysbysiad o benderfyniad.

At ddefnydd CThEM

Dyddiad DD MM BBBB